**Cofnodion y Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl**
**Dydd Llun 4 Rhagfyr 2017, 11.30 – 13.00**

**Ystafell Gynadledda C a D, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd**

**Mynychwyr**

| | |
|---|---|
| Julie James AC, | Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip |
| Paul Dear (Cadeirydd) | Llywodraeth Cymru (Tîm Cydraddoldeb) |
| Jackie Davies | Llywodraeth Cymru (Tîm Cydraddoldeb) |
| Shona O'Shea | Llywodraeth Cymru (Tîm Cydraddoldeb) |
| Andrea Adams | Llywodraeth Cymru (Tîm Cydraddoldeb) |
| Wayne Crocker | Mencap Cymru |
| Rhian Davies | Anabledd Cymru |
| Joanna Fashan | Whizz Kidz |
| Tracey Good | Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG |
| Martyn Jones | Tai Pawb |
| Catherine Lewis | Plant yng Nghymru |
| Fiona Reid | Chwaraeon Anabledd Cymru |
| Samantha Williams | Anabledd Dysgu Cymru |

**Cyflwynwyr**

| | |
|---|---|
| Ffion Jones | Cymorth i Ddioddefwyr Cymru |
| Graham Roberts | Yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| Yasmin Sattar | Yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| Vikki Butler + 3 chydweithiwr | CARP Collaborations |
| Joe Powell + 3 chydweithiwr | Pobl yn Gyntaf Cymru |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Owen Williams | Wales Council of Blind People |
| Rebecca Woolley | Action on Hearing Loss Cymru |
| Andrea Gordon | Cŵn Tywys Cymru |
| Rhian Stangroom-Teel | Leonard Cheshire Disability |

## 1. Gair o Groeso
***Paul Dear, Llywodraeth Cymru***

1.1 Croesawodd Paul Dear bawb i'r cyfarfod ac eglurodd y byddai Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip, yn ymuno â'r cyfarfod am 12:00pm.

## 2. Cofnodion a phwyntiau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol
***Paul Dear, Llywodraeth Cymru***

2.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2017 yn gofnod cywir.

2.2 Roedd pedwar pwynt gweithredu o'r cyfarfod blaenorol:

1. *Cam gweithredu: Bydd Llywodraeth Cymru yn ychwanegu troseddau casineb anabledd at agenda'r cyfarfod nesaf.*

2. *Cam gweithredu: Bydd Llywodraeth Cymru yn gwahodd cynrychiolwyr o elusen Cymorth i Ddioddefwyr Cymru i'r cyfarfod nesaf, ac i roi cyflwyniad ar droseddau casineb anabledd.*

3. *Cam gweithredu: Bydd Jody Mellor yn trafod y posibilrwydd o gael cyflwyniadau gydag arweinwyr y prosiect, ac yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru os bydd unrhyw un ohonyn nhw'n gallu dod i'r cyfarfod nesaf.*

4. *Cam gweithredu: Bydd Llywodraeth Cymru yn ychwanegu Credyd Cynhwysol at agenda'r cyfarfod nesaf.*

2.3 Mae'r holl gamau gweithredu wedi cael eu cyflawni.

**3. Troseddau Casineb Anabledd**
***Paul Dear – Llywodraeth Cymru***
***Ffion Jones – Cymorth i Ddioddefwyr***

3.1 Cyflwynodd Paul Dear y pwnc hwn drwy egluro bod angen i droseddau casineb anabledd gael lle mwy blaenllaw ar agenda pawb. Dydy'r Grŵp Gweithredu ar Droseddau Casineb Anabledd ddim wedi cwrdd ers cryn amser. Er bod troseddau casineb anabledd wedi cael rhywfaint o sylw yng nghyfarfodydd diweddar y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol ar gyfer Troseddau Casineb (y Bwrdd), dydy'r mater ddim wedi bod yn thema ganolog mewn trafodaethau hyd yma, yn wahanol i faterion ffydd ac LGBT sydd wedi cael eu trafod yn drylwyr yn ystod y 12 mis diwethaf. Un opsiwn fyddai gofyn i'r Bwrdd fwrw ymlaen â hyn neu ailgynnull y Grŵp Gweithredu, gan ddibynnu ar farn y grŵp. Eglurodd Rhian Davies fod y Grŵp Gweithredu wedi cael ei sefydlu'n wreiddiol rhwng Anabledd Cymru a Cymru Ddiogelach, a'i fod yn gweithredu ar lefel traws-sector. Roedd y ffordd yr oedd y grŵp yn cael ei ariannu'n destun trafod, a phwy oedd yn gyfrifol am beth. Gofynnodd Paul am farn y grŵp ar y ffordd orau o symud ymlaen.

3.2 Awgrymwyd y byddai modd ailedrych ar gofnodion blaenorol cyfarfodydd y Grŵp Gweithredu i weld y materion a oedd yn cael eu trafod, ac i ystyried a fyddai'n fuddiol ailgynnull y Grŵp.

3.3 Cafwyd cyflwyniad i waith Cymorth i Ddioddefwyr gan Ffion Jones. Cafodd 35 o droseddau casineb anabledd eu cyfeirio ym mis Hydref 2017, sy'n ffigur isel o'i gymharu ag elfennau eraill o droseddau casineb. Mae hyn yn awgrymu bod llawer o droseddau ddim yn cael eu riportio. Mae Cymorth i Ddioddefwyr yn gweithio'n agos

gydag Anabledd Cymru i geisio sicrhau bod mwy o achosion yn cael eu riportio. Ychwanegodd Rhian Davies fod y grwpiau ffocws maen nhw wedi'u cynnal wedi bod yn effeithiol o ran cyrraedd pobl. Bydd adroddiad yn cael ei baratoi, gyda chanfyddiadau.

3.4 Bu'r grŵp yn trafod troseddau casineb anabledd:

- Mae rhai materion yn rhwystro achosion rhag cael eu riportio, fel pobl ddim yn sylweddoli eu bod wedi dioddef trais casineb, ddim yn ddigon hyderus i riportio, ddim yn gwybod ble na sut i riportio.
- Mae angen i wasanaethau fod yn hwylus i bobl sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain.
- Mae ymddygiad sy'n dechrau fel bwlio i bobl ifanc yn gallu datblygu i fod yn Droseddau Casineb yn y dyfodol. Mae'n bwysig bod pobl ifanc anabl yn deall beth sy'n digwydd iddyn nhw.
- Bydd angen i bobl anabl herio a chyfrannu at ba grŵp bynnag fydd yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn.
- Rhoddwyd enghreifftiau o droseddau casineb anabledd mae pobl wedi cael profiad ohonyn nhw.
- Mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli cynnydd mewn ffigurau troseddau casineb. Nid yw bob amser yn glir ai'r ffaith bod mwy o droseddau'n cael eu riportio sy'n achosi hynny, neu fod mwy o droseddau casineb yn digwydd. Er enghraifft, gellid priodoli'r cynnydd yn y niferoedd ym mis Hydref i'r Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb.
- Mae Mencap Cymru yn ariannu ymchwil PHD ynghylch a yw'r newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi pobl mewn sefyllfa fwy bregus. Mae'r ymchwilydd yn edrych i weld a yw'r ddibyniaeth gynyddol ar gefnogaeth gan deulu, ffrindiau a'r gymuned leol wedi arwain at fwy o droseddau cyfeillio yn benodol. Disgwylir y bydd yn cyhoeddi'r canfyddiadau cyn bo hir.
- Roedd cynrychiolydd y trydydd sector ar y Bwrdd yn gadael y grŵp, ac roedd angen chwilio am gynrychiolydd arall. Byddai'r cynrychiolydd hwn yn rhoi sylw i bob elfen o droseddau casineb, a chafodd aelodau'r Fforwm eu gwahodd i awgrymu cynrychiolydd**.**
- Mae'n bwysig ystyried troseddau casineb fel un o symptomau'r profiad ehangach o wahaniaethu mae pobl anabl yn ei wynebu.

3.5 Cytunwyd y byddai'n ddefnyddiol i'r Bwrdd drafod troseddau casineb anabledd. Dywedodd Catherine Lewis, Joanna Fashan, Miranda Evans (Anabledd Cymru), Karen Warner (Anabledd Dysgu Cymru) a Martyn Jones y bydden nhw am fod yn rhan o'r drafodaeth hon.

**Cam gweithredu:** **Bydd aelodau'r fforwm yn anfon awgrymiadau i Lywodraeth Cymru i gael cynrychiolwyr ychwanegol ar gyfer y Trydydd Sector ar y Bwrdd.**

**Cam gweithredu:** **Bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i Gadeirydd y Bwrdd sicrhau bod Troseddau Casineb Anabledd ar yr agenda ar gyfer cyfarfod i'w gynnal cyn gynted â phosib yn 2018. Bydd Catherine Lewis, Joanna Fashan, Miranda Evans (Anabledd Cymru), Karen Warner (Anabledd Dysgu Cymru) a Martyn Jones yn cael gwahoddiad i ymuno â'r Bwrdd. (**Os hoffai aelodau eraill o'r Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl fod yn bresennol, fe ddylen nhw roi gwybod i Lywodraeth Cymru cyn gynted â phosib.)

**4. Ysgrifennydd y Cabinet yn cyrraedd a Chyflwyniadau**

4.1 Ar ôl i'r Gweinidog gyrraedd, fe gyflwynodd yr aelodau eu hunain.

**5. Credyd Cynhwysol – y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa**
***Graham Roberts / Yasmin Sattar***
***Yr Adran Gwaith a Phensiynau***

5.1 Roedd cyflwyniad yr Adran Gwaith a Phensiynau yn rhoi crynodeb o Gredyd Cynhwysol, a'r newidiadau a fydd yn dod i rym (cyflwyniad wedi'i atodi). Cafwyd sesiwn Holi ac Ateb yn dilyn hynny.

*Beth yw'r ddarpariaeth ar gyfer pobl Fyddar neu Drwm eu Clyw sydd am hawlio'n annibynnol?*
Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wrthi'n edrych ar y broses ar hyn o bryd, ac yn gweithio gyda sefydliadau i gael gwybod beth yw'r anghenion. Ar hyn o bryd, mae'r bobl sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain yn gallu defnyddio'r gwasanaeth yn barod. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ystyried neges fideo i egluro'r Credyd Cynhwysol i'r bobl hynny sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain.

*Mae'n bosib nad oes gan rai pobl ag anableddau dysgu fynediad at y rhyngrwyd, a'u bod yn gorfod defnyddio cyfrifiadur rhywun arall neu gyhoeddus i gyflwyno gwybodaeth bersonol, ac mae hynny'n achosi pryder. Mae pryderon hefyd y gallai'r budd-dal tai fynd yn syth i unigolion yn hytrach nag i'r landlord, ac nad oes gan yr unigolion sgiliau cyllidebu a bod ganddyn nhw ôl-ddyledion rhent yn sgil hynny.*
Fel rhan o'r broses hon, mae'n bosib i landlordiaid cymdeithasol wneud cais i gael taliad uniongyrchol ar ddechrau'r broses.

*Yn ôl adborth gan sir y Fflint, mae'r ôl-ddyledion rhent yn cynyddu, ac mae hyn wedi cael effaith ddinistriol ar bobl.*
Gall landlordiaid preifat wneud cais yn yr un modd â landlordiaid cymdeithasol. Mae taflen yn cael ei hanfon at bob landlord er mwyn rhoi gwybodaeth am sut i wneud cais am daliadau uniongyrchol, felly fe ddylai'r sefyllfa hon wella.

## 6 Prosiectau Ymchwil DRILL

***Pobl yn Gyntaf Cymru***

6.1 Cyflwynodd Joe Powell ei gydweithwyr, a thrafododd y gwahaniaethau rhwng eiriolaeth a hunaneiriolaeth. Roedd y prosiect yn defnyddio egwyddorion MIRROR i fesur hunaneiriolaeth er mwyn cael dull cyson o weithredu. Soniodd y cyflwynwyr am y grwpiau ffocws roedden nhw'n eu cynnal a oedd yn rhoi sylw i themâu fel trafnidiaeth gyhoeddus, troseddau casineb, cyflogaeth, diwylliant a bancio amser. Roedd rhan ar wahân o'r prosiect yn canolbwyntio ar gyfweliadau â chyllidwyr fel awdurdodau lleol. Roedd pecyn adnoddau drafft wedi cael ei baratoi, a'i gyflwyno yng nghynhadledd Pobl yn Gyntaf Cymru.

***Oherwydd ymrwymiad arall, fe ymddiheurodd y Gweinidog a gadael y cyfarfod.***

***CARP Collaborations***

6.2 Sefydliad cydweithredol yn Abertawe yw CARP, ac mae'n gweithio ar hyd a lled Cymru. Mae'r prosiect DRILL yn ymchwilio i brofiadau pobl ifanc o gyfeillgarwch. Mae gan y prosiect 8 ymchwilydd cyflogedig, sydd wedi bod yn cyfweld â phobl ifanc ag anableddau dysgu. Yn sgil eu profiadau personol eu hunain, maen nhw wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr at y broses. Maen nhw hefyd wedi elwa o'r profiad o weithio, ymwneud â phobl newydd a chael achrediad.

6.3 Canfu'r gwaith ymchwil fod y bobl ifanc wedi cael profiad o fwlio, wyneb yn wyneb ac ar-lein, yn ogystal â throseddau cyfeillio. Roedden nhw'n cael trafferth gwneud a chynnal cyfeillgarwch, ac roedd rhai pobl yn teimlo'n unig. Fodd bynnag, roedd pobl ifanc eraill (yn bennaf, y rhai a oedd yn gwneud llawer gyda'u teulu) yn cael mwy o gyfle i ryngweithio'n gymdeithasol. Yn aml iawn, roedd disgwyliad mai rhywbeth tymor byr yw cyfeillgarwch.

6.4 Un o'r canfyddiadau clir oedd bod y bobl ifanc yn teimlo eu bod wedi cael cam gan y system Addysg. Roedd rhai pobl yn wynebu anawsterau enfawr mewn rhai sefyllfaoedd. Fe ddaeth yr ymchwilwyr ar draws enghreifftiau o arferion da, ond doedd y rheini ddim yn cael eu rhannu ar draws rhanbarthau.

6.5 Diolchodd y Cadeirydd i'r holl gyflwynwyr am fod yn bresennol, ac am rannu eu profiadau.

## 7. Y Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol – y wybodaeth ddiweddaraf

***Paul Dear / Jackie Davies***
***Llywodraeth Cymru***

7.1 Bydd drafft newydd o'r Fframwaith yn cael ei anfon i'r Grŵp Llywio cyn y cyfarfod nesaf, ddydd Gwener 8 Rhagfyr. Bydd y Fforwm yn cael rhagor o wybodaeth yn y cyfarfod nesaf.

## 8. Unrhyw fater arall / dyddiad y cyfarfod nesaf

8.1 Dywedodd Rhian Davies wrth y grŵp fod Anabledd Cymru wedi cyhoeddi ei rhestr fer o fenywod anabl ysbrydoledig, a bod y manylion ar gael ar y wefan o dan y faner 'Embolden'.

http://www.disabilitywales.org/blog/waless-most-inspiring-disabled-women-announced-iamembolden